

# GOODSON THOMAS



Sicrhau bod cyfathrebiadau'n **gweithio i bawb**

Making communications work **for everyone**

## **Aelod Anweithredol ar ran Cymru**

### **Ofcom**

### **£42,519 am hyd at 2 ddiwrnod yr wythnos**

Ofcom yw'r rheoleiddiwr cyfathrebiadau yn y Deyrnas Unedig. Mae'n rheoleiddio'r sectorau teledu a radio, telegyfathrebiadau llinell sefydlog, ffonau symudol, y gwasanaethau post a'r tonnau awyr y mae dyfeisiau di-wifr yn eu defnyddio. Mae'n gwneud yn siŵr bod pobl yn y DU yn cael y gorau o'u gwasanaethau cyfathrebu a'u bod yn cael eu hamddiffyn rhag sgamiau ac arferion twyllodrus, gan sicrhau ar yr un pryd bod cystadleuaeth yn gallu ffynnu.

Mewn ymgais i gryfhau sgiliau ei Brif Fwrdd, a chael cydbwysedd sgiliau arno, mae Ofcom yn awyddus i wneud penodiad hollbwysig; ei Aelod Anweithredol cyntaf ar ran Cymru. Mae cyfnod y penodiad am hyd at bedair blynedd.

#### **Y Rôl**

- Fel aelod o Brif Fwrdd Ofcom, bydd y sawl a benodir yn gwasanaethu ar un neu fwy o bwylgorau hefyd (Archwilio a Risg/Taliadau/Enwebiadau), yn ogystal â mynychu cyfarfodydd Pwyllgor Cyngori Cymru a chyfarfodydd Pwyllgor y Gwledydd.
- Bydd yr unigolyn yn cael ei benodi fel Aelod o Fwrdd Ofcom gan Weinidogion Cymru (ar ôl ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol) a bydd ganddo'r un cyfrifoldebau ledled y DU ag aelodau anweithredol eraill y Bwrdd.
- Bydd disgwyl i'r sawl a benodir ddeall a chymryd rhan yn holl drafodaethau'r Bwrdd ar draws ei gyloch gwaith cyfan, gan gynnwys effaith cydgyfeirio ar reoleiddio ar draws y maes darlledu, telegyfathrebiadau llinell sefydlog a symudol, gwasanaethau post, a sbectrwm.

#### **Yr Unigolyn**

- Bydd gan y sawl a benodir ddiddordeb yn y sectorau darlledu a chyfathrebiadau, neu mewn mentrau tebyg ar raddfa fawr yn y sector cyhoeddus neu fasnachol, neu ddealltwriaeth ohonynt. Bydd yn deall y materion sy'n effeithio ar y sector cyfathrebu yng Nghymru, a bydd ganddo hefyd wybodaeth a dealltwriaeth o'r cyd-destun gwleidyddol a chyfansoddiadol yng Nghymru.
- Bydd gan y sawl a benodir y gallu i ddeall yr egwyddorion busnes ac economaidd sy'n sail i'r sectorau darlledu, telegyfathrebiadau a phost yn yr amgylchedd digidol. Hefyd, yn

# GOODSON THOMAS

ddelfrydol, bydd ganddo ddealltwriaeth a phrofiad o natur aflonyddgar arloesedd technolegol sy'n datblygu'n gyflym, ac o'r effeithiau posibl ar y farchnad a'r newidiadau strwythurol y gall hyn eu hachosi.

- Bydd gan y sawl a benodir profiad o weithredu ar lefel Bwrdd a bydd yn aelod naturiol o dîm. Bydd hefyd yn gyfarwydd â phrosesau, strwythurau a gweithdrefnau llywodraethu, ac â Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU. Dylai'r sawl a benodir hefyd fod yn gyfarwydd ag ymgysylltu â Seneddau a Llywodraethau, gan gynnwys mewn cyd-destun datganoledig.
- Er nad yw medru'r Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y rôl hon, rhaid cael dealltwriaeth drylwyr a gwerthfawrogiad o anghenion siaradwyr Cymraeg ac o ddyletswyddau Ofcom i ddarparu gwasanaethau dwyieithog yng Nghymru. Yn ogystal, bydd y sawl sy'n cael ei benodi yn gallu cyfrannu'n gryf at waith y Bwrdd yn ystyried cyd-destun ehangach yr heriau sy'n wynebu defnyddwyr sy'n cael gwasanaeth gwael ledled y DU.
- Bydd gan y sawl a benodir farn a sgiliau gwneud penderfyniadau cadarn. Bydd yn berson didwyll a bydd yn gallu dangos ei fod yn deall yr angen i Ofcom wneud penderfyniadau annibynnol dan bwysau. Yn ogystal, bydd y sawl a benodir yn gallu dangos nad oes dim gwrthdaro yn codi oherwydd unrhyw fuddiannau masnachol neu wleidyddol.

*I gael trafodaeth anffurfiol a chopi o'r Wybodaeth i Ymgeiswyr, cysylltwch â Siân Goodson, Sam Rees neu Sam Smith yn Goodson Thomas: 029 2167 4422.*

*I wneud cais, anfonwch e-bost at [applications@goodsonthomas.com](mailto:applications@goodsonthomas.com) gan roi GT\_0127\_Ofcom yn llinell y pwnc; ac atodi copi o'ch CV a'r llythyr eglurhaol.*

***Y dyddiad olaf ar gyfer derbyn ceisiadau: Dydd Gwener, 23<sup>ain</sup> Tachwedd 2018***

*Mae croeso i chi wneud cais yn Gymraeg.*

*Bydd pob cais yn cael ei gydnabod.*